

Cyflwyniad

Mae bob amser yn braf croesawu Cymro newydd i'n byd. Babi newydd ond babi ar brifant yw Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru. Cafodd y Gymdeithas ei chyflwyno i'r byd a'i rhoi dan ofal tyner Pwyllgor Llywio o garedigion, gan gyfeillion inni o Gymdeithas Edward Llwyd, ym Mhlas Tan-y-bwlch ym mis Tachwedd 2010.

Cynhaliwyd cynhadledd gyntaf y Gymdeithas yn y Llyfrgell Genedlaethol ym mis Hydref 2011. Mae ein diolch yn fawr i'r Llyfrgell ac i'r Ganolfan Uwchegyddiau Cymreig a Cheltaidd am bob cymorth wrth drefnu cynhadledd y llynedd. Eleni, ar wahoddiad, awn i'r de-ddwyrain, i Gaerdydd, ac yn benodol i Archifdy Morgannwg i gynnal ein cynhadledd yn Hydref 2012. Yn ogystal â chlywed am adnoddau'r Archifdy ar gyfer astudio enwau lleoedd a chael cyfle i weld yr adnoddau yno, mae rhaglen ddeniadol iawn wedi'i threfnu ar gyfer y cynadleddwyr. Mae'r camau cyntaf yn ogystal wedi eu cymryd at drefnu cynhadledd 2013.

Gweld bod angen hybu ymwybyddiaeth, astudiaeth a dealltwriaeth o enwau lleoedd Cymru; gweld bod angen ystyried perthynas enwau lleoedd Cymru ag ieithoedd, tirwedd, hanes a diwylliant y wlad; sylweddoli bod angen gwarchod enwau lleoedd Cymru - dyma'r ystyriaethau a ddenodd dros gant o gefnogwyr i Dan-y-bwlch ac i'r Drwm yn Aberystwyth. Mae'r rhagolygon ar gyfer cynhadledd lwyddiannus arall yn Lecwydd ar 6 Hydref 2012 yn addawol dros ben.

Cymerwyd amryw gamau eraill i hybu ac estyn ein gweithgarwch yn ystod y deunaw mis diwethaf. Mae'r Gymdeithas erbyn hyn yn cynghori grwpiau ac unigolion mewn sawl ardal yng Nghymru ar sut i fynd ati i gofnodi, i ddadansoddi ac i ddehongli enwau lleoedd. Mae dda gweld bod cynifer o'r grwpiau a'r cymdeithasau y buom yn ymwneud â nhw wedi ymateb mor frwdfrydig - rhai yn cropian ac eraill wedi dechrau cerdded erbyn hyn. Rhan o'n cenhadaeth yn ystod y ddwy flynedd nesaf fydd adeiladu ar y seilau sydd wedi eu gosod. Mae'n her a hanner a bydd yn cael sylw dyladwy yn rhaglen y Gynhadledd yn yr hydref.

Cafwyd ymateb cadarnhaol hefyd wrth fynd ar ofyn rhai sefydliadau a mudiadau o gyffelyb anian â ni. Y gobaith yw y byddant hwy a'u cyhoeddiadau hwy yn datblygu'n llwyfan naturiol ac ychwanegol i hysbysebu nod sy'n gyffredin inni oll, sef gwarchod ein treftadaeth yn genedlaethol ac yn lleol.

Yn y byd sydd ohoni, mae gwefan y Gymdeithas yn adnodd hanfodol, hollbwysig. Bydd cyfnod yn cael ei neilltuo yn yr hydref i drafod pa gynnwys yn union yr hoffai'r aelodau ei weld yn ymddangos ar y wefan.

Introduction

A new addition to the family is always welcome news. The Welsh Place-Name Society is a new baby and is doing well. The newly formed Society was put in the care of a steering committee by colleagues from Cymdeithas Edward Llwyd, at Plas Tan-y-bwlch in November 2010.

The Society's inaugural conference was held at the National Library in October 2011. We are, naturally, very grateful to the Library and the Centre for Advanced Welsh and Celtic Studies for their assistance in organizing last year's conference. This October we have been invited to the south-east, to Cardiff, and specifically to the new Glamorgan Archive Offices, which are located in Leckwith. We will hear about the archive's impressive resources for place-name studies and have an opportunity to examine the important resources there. An attractive and varied programme has been arranged for delegates. We have already taken initial steps to arrange a suitable venue for the 2013 conference.

The need to promote awareness, study and understanding of the place-names of Wales; the need to consider the relationship between the place-names of Wales and the languages, landscape, history and culture of the country; the need to protect the place-names of Wales - these are some of the reasons why over a hundred delegates were attracted to Plas Tan-y-bwlch and to the Drwm in Aberystwyth. The prospects for another successful conference in Leckwith on 6 October 2012 are favourable.

A number of steps have been taken over the past eighteen months to promote and extend our activities. The Society already advises groups and individuals on how to set about recording, analyzing and interpreting place-names. It is encouraging that so many of the groups that we have been involved with have responded enthusiastically - some taking tentative but positive steps, others already moving along confidently. Our mission during the next two years will be to build on foundations that have already been laid. It is a great challenge and a great opportunity and will receive due attention in the autumn conference programme.

We have also had a favourable response from our approaches to institutions and bodies that share similar interests. It is hoped that these supporters and their publications will create additional platforms and enable us to promote a key common objective, namely the preservation of our place-name heritage both nationally and locally.

The Society's website is undoubtedly an essential and vital resource. Time has been earmarked in the October conference to discuss what material our members would wish to see on the website.



Cam pendant arall a gymerwyd gennym yw cyhoeddi ein Cylchlythyr ni ein hunain. Mae'n bleser inni ei gyflwyno i'n haelodau. Bydd y rhan fwyaf o lawer ohonom wedi derbyn y Cylchlythyr ar ei wedd electronig; bydd wedi cyrraedd at eraill gyda'r fen fach goch. Rydym yn awyddus i glywed eich barn am y fenter hon yn ogystal a bydd cyfle i drafod ac i roi syniadau gerbron yn y Gynhadledd.

Diolch am bob cefnogaeth ar hyd y daith ; edrychwn ymlaen at eich gweld yng nghynhadledd Hydref 2012.

Ar ran y Pwyllgor Llywio

David Thorne

Another important step is the publication of our own Newsletter. It is a great pleasure to present it to our members. Most of us will have received the newsletter electronically; it will come to others via the little red van. We would very much appreciate your opinion of this venture and there will be ample opportunity to discuss format, content and development at the conference.

Thank you for your support along the way; we look forward to seeing you at the conference in October 2012.

On behalf of the Steering Committee

David Thorne

Clytiau Pysgota Caernarfon

Dyma gasgliad o enwau ar glytiau pysgota gan Tony Lovell, un o 'sgotwyr 'samons' olaf Caernarfon. Mae'r enwau hyn wedi eu cario i lawr dros o leiaf dair cenhedlaeth. Dioch i Tony am y cyfle i'w cofnodi cyn iddynt ddiplannu am byth.


- 1. Traeth Gwyn** Ger Trwyn y Belan. Byddai'r hogiau'n dal 'whitebait' yma.
- 2. Glastwr** Oherwydd lliw'r dŵr tyfn yma.
- 3. Bwi 'Nymbar 9'** Safle bwi yw hwn.
- 4. Treasure Island** Llecyn yng nghanol y Fenai gyferbyn â Chaernarfon. Y rheswm am yr enw yw bod y safle yma'n lle da i ddal pysgod.
- 5. Coffee Bay** Ger Ala Las. Lliw'r dŵr yn y llecyn hwn sy'n gyfrifol am yr enw yma. Mae yna ambell un yn dweud 'Cofi Bay'.
- 6. Tŷ Kelly** Llecyn ger tŷ lle roedd rhywun o'r enw Kelly yn byw.
- 7. Twm Grafal** Ar ochr ddeheuol Traeth Melyn. Dim esboniad
- 8. South Crook** Enw Saesneg Abermenai (*South Croke* yw ffurf yr hynafiaethydd John Leland yn yr 16 ganrif). Mae'n edrych yr un siâp â phen ffon.
- 9. Ynys Lom** Dim ond ar lanw uchel mae'r llecyn yma'n ymddangos fel ynys ger ceg Afon Braint yn Nhraeth Melyn.
- 10. Afon Nigar** Yn ôl pysgotwr o Niwbwrch, 'Afon Rhuddgaer' yw enw Afon Braint yn lleol, am fod honno'n llifo drwy fferm y Rhuddgaer, a'r enw wedi mynd yn 'Afon Nigar' gan bysgotwyr Caernarfon.

11. Cei Bach Llecyn ger Bae'r Belan

12. Trwyn y Monk Safle rhwng Abermenai a thraeth Niwbwrch, lle suddodd cwch o'r enw 'The Monk' ar fordaith o Borth Dinllaen i Lerpwl yn 1847. Mae'r hanes i'w gael ar wefan Rhiw.com. Trwyn gyda llaw sydd ond yn ymddangos ar drai, ac i'w weld yn glir o Rosgadfan.

13. Sianel Gwŷr Nefyn Enw hollol naturiol ar lafar, ond heb yn wybod i'r hogiau mae'r enw yn un hen iawn, sy'n ymddangos ar fap Lewis Morris 1748. Sianel o ddŵr dwfn oedd hon a ddefnyddid fel ffordd fyrrach o fynd a dod o gyfeiriad Nefyn.

14. Tociau Tŷ Calch Dau docyn o gerrig yw'r rhain, sef Tocyn Isaf a Thocyn Uchaf, sydd rhyw 50 llath o'i gilydd. Dyma safle ar gyfer rhwydo pysgod, ble 'roeddynt yn gosod y rhwyd allan o un tocyn, a thynnu pen arall o'r rhwyd i mewn o'r llall. Byddai'r rhwyd yn cael ei thynnu mewn fel siâp U. Mae'n bosib gweld y rhain ar y llanw isaf un.



Lleihad yn nifer yr eogiaid ddaeth â diwedd i'r traddodiad hwn yng Nghaernarfon.

Ifor Williams

I'ch Dyddiadur

9 Mehefin 2012 – Fforwm Undydd – Seintiau ac enwau lleoedd, Y Ganolfan Geltaidd, Aberystwyth

6 Hydref 2012 - Cynhadledd Flynyddol CELIC, Lecwydd, Caerdydd

Save the date


9 June 2012 – One-day Forum – Saints and the names of places, CAWCS, Aberystwyth

6 October 2012 - WPNS Annual Conference, Leckwith, Cardiff

Eosiaid Gwlad y Gân

Eos Ceiriog, Eos Morlais, Eos Bradwen; doedd dim prinder Eosiaid yng Ngwlad y Gân. Ond lle roedd yr eosiaid go iawn? Mae Llyfr Taliesin yn cyfeirio ati yn y 14 ganrif yng nghwmni cogau mis Mai. Cyfeirio at greadur byw yn ei gynefin, ac nid at sentiment y traddodiad pêr ganu a wnaeth Dafydd ap Gwilym: *Cytgerdd eos mewn coetgae* meddai, ac eto, Salm wiw is helm o wial. Roedd Dafydd felly yn hollol

ymwybodol o gynefin yr eos. Cyfeiriodd William Salesbury (1547) ato fel *ederyn a gan y nos, a nygthyngale*.



Ffig. 1 Nifer o enwau lleoedd ac iddynt elfen yn cyfeirio at 'eos' yn ogystal ag elfennau yn cyfeirio at a) gwahanol gynefinoedd priodol i eos (*llwyn* i *banc*), b) gwahanol adeiladau neu sefydliadau (*llety* i *ysbyty*) ac c) enwau na ellir eu priodoli i'r naill gategori na'r llall (*carreg* i *cefn*). (cofnodion Archif Melville Richards)

A oedd hinsawdd a thirwedd Cymru'r cyfnod ôl-Rufeinig yn fwy addas i eosiaid nag y bu fyth wedyn? Dyna'r Cyfnod Cynnes Canoloesol, cyfnod o fwynder pan fu gwinllannoedd Prydain yn eu gogoniant a

phobl y gorllewin yn mwynhau tywydd Mediteranaidd a phan fu'r Northmyn yn gwladychu ynsoedd y Gogledd am y tro cyntaf. Ai dyma pryd y gwelodd eosiaid Cymru eu Paradwys olaf? Dengys y ffynonellau na allai'r aderyn hwn fod yn gwbl anghyfarwydd, ar adegau o leiaf, yng nghyfnod bore yr iaith Gymraeg.


Mae'r eirfa enwau lleoedd 'eosiaid' wedi eu gwasgaru ar hyd a lled y wlad, a theg yw gofyn beth yn union oedd eu hystyr .

Gwelwn yn Ffigur 1 mai 'Llwyn Eos' a 'Pant Eos' yw'r enwau mwyaf cyffredin yng Nghymru o blith yr enwau 'cynefin', a gellir felly yn hawdd credu eu bod yn cyfeirio at yr aderyn go iawn yn ei gynefin. Ar y llaw arall 'Llety'r Eos' yw'r ffurf fwyaf cyffredin ymhlith y rhai sydd yn fwy tebygol o gyfeirio at lysenw perchen a ganai'n dda, neu at gyrchfan y Pêr ganu.

Dengys Ffigur 2 fod y cofnodion yn ymrannu i ddau glwstwr, yn rhanbarthol ac o ran ystyr. Mae'r rhai 'cynefin' yn lledaenu ar hyd y Deheubarth yn bennaf, a'r rhai 'anheddol' ar hyd Gororau'r gogledd yn bennaf. Blwyddyn canolig cofnodi enwau'r categori cyntaf yw 1709 (ystod 1579-1839) ac yn achos yr ail, 1733 (ystod 1629-1838). Nid ydynt felly yn ymddangos yn ymrannu'n sylweddol o ran cyfnod.

Dyma gofnododd Charles James Apperley am yr eos, yn ei hunangofiant, tua diwedd y ddeunawfed ganrif:

It is generally supposed that the nightingale is not found north of or far beyond the river Trent. It happened, however, in one year, that one was to be heard in Erthig wood for about six weeks. Being really a *rara avis* in that part of the world, half Wrexham would be in the wood until a late hour of the night, and some throughout the entire of it Several unpropitious matches, as well as considerable augmentation of the population to be provided for from the parish rates, were the result of 'the amorous power of his soft lay'.



Ffig. 2 Dosbarthiad enwau lleoedd sydd yn cynnwys yr elfen 'eos' wedi eu gwahaniaethu yn ôl 'cynefin' ac 'adeilad' (cofnodion Archif Melville Richards sydd â chyfeirnod grid manwl)

Rhaid yw eu tynnu i lawr

Os gwelwch arwydd sy'n cynnwys enw lle wedi ei sillafu'n anghywir, rhowch wybod inni. Gorau oll, tynnwch ei lun a gyrru hwnnw atom ni i enwaulleoedd@gmail.com.



Mae hwn ym Mwrdeistref Conwy. Mae gwall yn enw'r stryd hefyd.

If you see a sign with a misspelt place-name, please let us know. Even better, take a picture and send it to us at enwaulleoedd@gmail.com. This one is supposed to be the longest name in the USA, and should read 'Chargoggagoggmanchauggagoggchaubunagungamaugg'. We understand it has been corrected by now.

Sign Watch



O Gwmpas y Nyth

Ym mhennod gyntaf *Hen dŷ ffarm* cawn D J Williams (t 48) yn datgan am ei gynefin yng ngogledd sir Gaerfyrddin:

I mi, dyma fro y broydd, y godidocaf ohonynt oll. Dysgais ei charu, mi gredaf, cyn dysgu cerdded. Ni theithiais y darn yma o wlad erioed - o Fwlch Cae Melwas i Fwlch Cefn Sarth ac o Graig Dwrch i'r Darren Fowr - heb deimlo rhyw gynnwrf rhyfedd yn cerdded fy natur - cynnwrf megis un yn teimlo penllanw ei etifeddiaeth ddaearol ac ysbrydol yn dygyfor ei enaid. Dyma wlad fy nhadau mewn gwirionedd.

'Bwlch Cefn Sarth' yw'r enw sy'n tynnu sylw y tro hwn ac nid dehongli ei ystyr mo'r bwriad. Erys Cae Melwas, Darren Fawr a Chraig Dwrch; ofer chwilio am arwydd yn dynodi Bwlch Cefn Sarth yng nghyfeir D J, bellach.

Bwlchcefn Sarth (1810), *Bwlch Genau sarn* (1831) yw'r ffurfiau cynharaf a gofnodir yng Nghronfa Ddata Archif Melville Richards. Sut bynnag, dengys Melville Richards yn *Carmarthenshire studies : essays*

presented to Major Francis Jones (ed Tudor Barnes and Nigel Yates, 1974, tt 110-121), wrth drafod ffiniau cwrt (*grange*) Cilmaren yn ne-ddwyrain Cynwil Gaeo yn sir Gaerfyrddin, a oedd yn eiddo i Abaty Tallyllychau, mai 'Bwlch Genau Sarff' yw'r enw gwreiddiol a chywir: *tir bulch gene sarph* (1615), *tir bulch gene sarff* (1615), *Tir bulch gene sarph* (1668) yw'r ffurfiau cynharaf a nodir yn y Gronfa Ddata.

Enw'r daliad bellach yw *Emerald Valley*.
David Thorne



Llabwst

Weithiau mae rhywun yn dod ar draws ryw enw difyr a gogleisiol ar ei deithiau. Meddylwch ein difyrrwch felly pan ddaeth criw ohonom, ar daith gerdded o Blas Tan y Bwlch, ar draws yr enw *Llabwst* ar fferm yn ne Meirionnydd (SH 578062). I mi mae llabwst yn cyfeirio at rywun mawr trwsgl. Tybed sut daeth y fath enw ar fferm? Fedr unrhyw un fy ngoleuo?

Twm Elias



Golygyddol

Ym mhob pen mae piniwn. Beth yw'r piniwn yn eich pen CHI? Dywedwch wrthym yn enwaulleoedd@gmail.com.

Nid yw unrhyw farn a fynegir yn y cylchlythyr hwn o anghenraid yn fynegiant o farn y Gymdeithas na'r Golygydd.

Cysodi / Typeset by: Ifor Williams

Editorial

What's your take on place-names?. Let us know at enwaulleoedd@gmail.com.

Opinions expressed in this newsletter are not necessarily those of the Society or of the Editor.

Golygydd / Editor: Gareth A Bevan